Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar gyfer

# Meithrinfa Ysgolheigion Bach
# Glyndŵr
# Ffordd yr Wyddgrug
# Wrecsam
# LL11 2AW

## Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2019

## gan

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

## ac

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Am Feithrinfa Ysgolheigion Bach

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Meithrinfa Ysgolheigion Bach |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Dd/G |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Rebecca Mottram |
| Person â chyfrifoldeb | Rebecca Mottram, Catrin Davies a Kim Weller |
| Nifer y lleoedd | 91 |
| Ystod oedran y plant | Rhwng 0 a 12 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 21 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 07.30 a 18.00 (ar gau rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd ac ar wyliau banc). Clwb gwyliau ar agor rhwng 08.00 a 17.30 (yn ystod gwyliau ysgol), ar gau am wythnos dros y Nadolig |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Na |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg pobl/plant sy'n defnyddio ei wasanaeth neu sy'n bwriadu gwneud hynny. Argymhellwn y dylai'r darparwr gwasanaeth ystyried canllawiau strategol olynol 'Mwy na Geiriau' |

| | |
|---|---|
| | Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg ym maes gofal cymdeithasol. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 05/07/2017 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 30/06/2014 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 09/07/2019 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

## Crynodeb

| **Thema** | **Barn** |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn ond yn berthnasol i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn ond yn berthnasol i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Gwella darpariaeth barhaus i sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd cyson ac effeithiol i ddilyn eu syniadau a'u diddordebau eu hunain

A2 Datblygu'r ardal awyr agored drwy gynnig amrywiaeth ehangach o brofiadau dysgu a arweinir gan y plant a sicrhau bod y plant yn cael mynediad rhydd iddi'n gyson

A3 Sicrhau bod y broses arfarnu yn cynhyrchu targedau i wella sy'n fwy penodol ar gyfer pob ymarferwr gan gynnwys y personau â chyfrifoldeb

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Llesiant: Da**

Mae bron pob plentyn yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau priodol am eu chwarae a'u dysgu yn hyderus. Er enghraifft, maent yn dewis beth yr hoffent chwarae ag ef, gyda phwy yr hoffent chwarae a beth yr hoffent gael i'w fwyta neu yfed. Mae bron pob plentyn yn mynegi eu hanghenion yn bendant gan wybod bod yr ymarferwyr yn gwerthfawrogi eu cyfraniadau. Er enghraifft, mae'r plant hŷn yn pleidleisio am ba straeon fydd yn cael eu darllen amser cylch ac mae babanod sy'n dangos eu bod wedi blino yn cael cysgu gan fod y drefn yn hyblyg.

Mae bron pob plentyn yn hapus, yn ymlaciedig ac yn setlo'n gyflym i wneud gweithgareddau. Mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'u gweithwyr allweddol ac maent yn mwynhau gwenu ar ei gilydd a chael eu mwytho drwy gydol y dydd. Mae bron pob plentyn yn gyfarwydd â threfn y lleoliad, sy'n rhoi ymdeimlad o sicrwydd iddynt. Er enghraifft, ar ôl iddynt fwyta, mae'r plant yn gwybod y dylent sychu eu hwynebau cyn mynd allan i chwarae.

Mae bron pob plentyn yn ymddwyn yn dda ac yn rhyngweithio'n bwrpasol. Maent yn chwarae'n dda â'i gilydd, gan gymryd eu tro a chan ymuno â chwarae ei gilydd yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r plant yn fodlon cymryd eu tro i rolio eu hunain i lawr y bryn ac yn rhannu offer chwarae blêr yn hapus gyda chymorth. Mae amseroedd prydau bwyd yn achlysuron cymdeithasol gyda'r rhan fwyaf o'r plant yn cyfathrebu'n gadarnhaol a rhai o'r plant hŷn yn dweud 'please' a 'thank-you' heb i neb eu hatgoffa. Mae rhai o'r plant yn dysgu bod yn wydn ac nid ydynt yn gadael i rwystrau amharu ar eu chwarae. Er enghraifft, mae'r plant yn rhwbio eu pengliniau ar ôl cwympo oddi ar dreiciau ac yn mynd yn ôl iddynt er mwyn parhau â'u chwarae.

Mae bron pob plentyn yn dangos diddordeb mewn gweithgareddau sy'n seiliedig ar chwarae, yn dangos chwilfrydedd ac yn archwilio teganau'n hyderus. Er enghraifft, maent yn mwynhau dod o hyd i beli yn y carpion papur ac maent yn arbennig yn mwynhau arwain eu dysgu eu hunain yn yr ardaloedd chwarae rôl. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dangos lefelau priodol o ddyfalbarhad. Er enghraifft, maent yn adeiladu tyrau'n hapus ar ôl iddynt gwympo i lawr ac yn canolbwyntio nes bod tasgau wedi'u gorffen, megis wrth wneud cardiau pen-blwydd.

Mae bron pob plentyn yn llawn cymhelliant ac yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sy'n datblygu eu hannibyniaeth yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn tacluso adnoddau, yn rhoi eu hancesi yn y bin, yn arllwys eu diodydd eu hunain a lle y bo'n bosibl yn gweini eu hunain yn ystod prydau bwyd. Mae bron pob plentyn yn datblygu sgiliau sy'n briodol ar gyfer eu hoedran gyda llawer o'r plant iau yn gwybod y rhifau hyd at bump a rhai o'r plant iau yn gwybod y lliwiau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

**Dysgu (mae hyn ond yn berthnasol i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol, yn arbennig wrth ddatblygu eu sgiliau personol, cymdeithasol, iaith a chyfathrebu. Er enghraifft, maent yn atgoffa ffrind ei fod yn gallu cael un tro arall cyn daw eu tro i ddefnyddio'r cyfrifiadur llechen.

Yn ystod amser grŵp, mae bron pob plentyn yn canolbwyntio'n dda ar stori a thestunau eraill megis llythyr gan Spaceman Sid gyda rhai o'r plant yn dewis llyfrau ac yn cydio ynddynt yn annibynnol. Mae llawer o'r plant yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau sy'n datblygu eu sgiliau gwneud marciau, megis defnyddio paent a sialc gyda lleiafrif yn dangos dealltwriaeth dda o ysgrifennu at ddiben penodol. Er enghraifft, maent yn ceisio ysgrifennu eu henw ar baentiad neu gyda chymorth yn creu label ar gyfer arddangosfa.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu eu sgiliau mathemategol a datrys problemau'n llwyddiannus. Er enghraifft maent yn dysgu sut i gasglu'r siapau sydd ar goll o roced gofod pan fyddant yn dod o hyd iddynt ar ben ffens. Mae llawer o'r plant yn dechrau adnabod rhai siapiau dau ddimensiwn syml yn gywir ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio geirfa fathemategol yn dda. Er enghraifft, maent yn cymharu maint eu 'carreg lleuad' ag eraill ac yn dweud wrth ffrind mai un nhw yw'r mwyaf. Mae llawer o'r plant yn cyfrif eitemau'n gywir hyd at bump ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn adrodd rhifau yn eu trefn hyd at ddeg.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu eu sgiliau creadigol yn effeithiol, megis pan fyddant yn paentio llun mawr neu'n archwilio amrywiaeth o synau gan ddefnyddio offerynnau taro. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cael gafael ar gyfarpar technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ac yn ei ddefnyddio'n dda dan do ac yn yr awyr agored. Er enghraifft, maent yn dewis eiconau wrth ddefnyddio cyfrifiaduron llechen ac yn defnyddio dyfeisiau synhwyro metel er mwyn chwilio am ddarnau o long ofod mewn pwll tywod mawr yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu eu sgiliau corfforol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn defnyddio siswrn a ffyn glud yn fedrus wrth greu model llong ofod. Mae bron pob un yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau megis rhaca, rhawiau a brwshys yn annibynnol. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu sgiliau echddygol bras da, megis mynd drwy leoedd ar dreiciau, rhedeg drwy lwyni a balansio ar gwrs rhwystrau.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu eu sgiliau Cymraeg yn dda mewn perthynas â'u mannau cychwyn. Maent yn ymateb i amrywiaeth o eiriau ac ymadroddion Cymraeg yn gadarnhaol ac yn ymuno mewn caneuon a rhigymau'n llwyddiannus. Mae llawer o'r plant yn defnyddio rhai geiriau Cymraeg megis lliwiau gyda chymorth ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyfrif hyd at dri yn Gymraeg yn annibynnol.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae gan y lleoliad weithdrefnau effeithiol i gadw'r plant yn iach ac yn ddiogel. Er enghraifft, mae pob ymarferwr wedi cwblhau hyfforddiant diogelwch bwyd ac maent yn dilyn canllawiau rheoli heintiau yn dda. Maent yn cwblhau cofnodion damweiniau a digwyddiadau'n gywir ac mae pob ymarferwr wedi cael yr hyfforddiant cymorth cyntaf diweddaraf. Mae'r ymarferwyr yn deall y polisi amddiffyn plant yn llwyr ac mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri unrhyw bryder. Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i chwarae yn gorfforol bob dydd dan do ac yn yr awyr agored. Maent yn sicrhau bod bwydydd a diodydd iach a maethlon yn cael eu cynnig i'r plant. Fodd bynnag, yn y prynhawn mae'n rhaid i'r plant aros am gyfnod hirach na'r hwn a argymhellir rhwng prydau bwyd.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio strategaethau i reoli ymddygiad y plant. Maent yn siarad mewn llais gofalgar ac yn defnyddio canmoliaeth yn effeithiol i annog y plant

wrth gwblhau gweithgareddau megis gwneud aliwns o does. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod eu disgwyliadau'n glir, er enghraifft, atgoffa'r plant yn dyner i eistedd yn ystod prydau bwyd a defnyddio eu fforch, ac o ganlyniad i hynny mae'r plant yn eistedd a bwyta yn briodol. Fel arfer ymdrinnir ag ymddygiad digroeso yn gyflym ac yn effeithiol gyda'r ymarferwyr yn tawelu sefyllfaoedd yn llwyddiannus, gan ddefnyddio caneuon i dynnu sylw'r plant ac esbonio'n sensitif pam ei bod yn bwysig iddynt gymryd eu tro.

Mae'r ymarferwyr yn gymwys ac yn brofiadol. Maent yn cynllunio amrywiaeth dda o brofiadau dysgu ysgogol sy'n hybu chwilfrydedd y plant. Er enghraifft, mae'r plant bach yn archwilio poteli synhwyraidd drwy eu hysgwyd a'u rholio ac mae'r plant hŷn yn tynnu cynlluniau ac yn gwneud rocedi gofod. Mae'r ymarferwyr yn darparu gofal ymatebol ac mae ganddynt ddull magwrus a gofalgar o weithredu. Er enghraifft, maent yn mwytho'r plant bach pan fyddant yn deffro ac yn rhoi cysur priodol pan fydd y plant yn drist neu pan fydd angen tawelu eu meddyliau.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau effeithiol ar waith i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn llunio cynlluniau gofal, yn gweithio'n dda gydag asiantaethau arbenigol pan fo angen, ac yn gweithio mewn partneriaeth agos â'r rhieni. Maent yn diwallu anghenion unigol y plant yn dda, ac o ganlyniad i hynny mae'r plant yn gwneud cynnydd priodol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r lleoliad yn darparu ystod effeithiol o brofiadau dysgu dan do ac yn yr awyr agored sy'n ymgysylltu â bron pob plentyn yn llwyddiannus. Mae bron pob ymarferwr yn canolbwyntio'n dda ar ddatblygu sgiliau cyfathrebu, TGCh, personol a chymdeithasol y plant. Er enghraifft, maent yn annog y plant i daenu mêl ar eu tost yn annibynnol wrth wneud brechdanau.

Mae'r ddarpariaeth i gefnogi sgiliau llythrennedd y plant yn effeithiol. Mae'r 'gornel lyfrau', a gafodd ei gwella'n ddiweddar, yn groesawgar ac yn llawn adnoddau, gydag amrywiaeth o lyfrau, teganau meddal a chlustogau. Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i'r plant gymryd rhan mewn gweithgareddau gwneud marciau megis defnyddio tywod, ewyn a sialc. Mae gweithgareddau megis gwneud rhestr siopa cyn ymweld â'r archfarchnad yn cefnogi dealltwriaeth y plant o ysgrifennu cynnar yn dda. Mae'r ymarferwyr yn cefnogi'r plant yn effeithiol yn ystod eu gweithgareddau dysgu. Maent yn annog y plant i ymgysylltu â gweithgareddau ac yn gwrando ar eu siarad yn ofalus megis pan fydd y plant yn sôn am adeiladu llong ofod. O ganlyniad i hynny, mae'r plant yn hyderus yn y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio cwestiynau'n dda i herio'r plant a gwthio eu dysgu ymlaen, er enghraifft wrth ofyn i'r plant pa ddeunyddiau y dylid eu defnyddio i wneud to'r llong ofod.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd defnyddiol i'r plant ddatblygu eu sgiliau corfforol gan gynnwys datblygu eu gafael gan ddefnyddio gefeiliau, brwshys a phosau. Mae cyfleoedd buddiol i'r plant ddatblygu sgiliau corfforol mawr yn yr ardal awyr agored. Er enghraifft, mae cwrs rhwystrau yn cefnogi'r plant i ddatblygu eu sgiliau balansio a neidio yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd diddorol i'r plant ddatblygu eu sgiliau rhifedd yn dda. Er enghraifft, maent yn cefnogi'r plant i gyfrif am yn ôl o bump wrth iddynt esgus bod yn llongau gofod ar fin esgyn. Mae llawer o'r ymarferwyr yn datblygu sgiliau datrys problemau'r plant yn llwyddiannus drwy weithgareddau ysgogol a gynlluniwyd.  Er enghraifft, maent yn darparu amrywiaeth o adnoddau defnyddiol megis pwlïau a magnetau wrth herio'r plant i gasglu darnau o long ofod y maent yn dod o hyd iddynt ar ffens.

Mae llawer o'r ymarferwyr yn hybu datblygiad Cymraeg y plant yn effeithiol. Maent yn modelu'r Gymraeg drwy ganu caneuon, cyfrif a defnyddio rhai geiriau ac ymadroddion Cymraeg yn briodol. Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd addas i'r plant gymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol megis paentio a gwneud aliwns 'pigog' o does.

Caiff datblygiad moesol, ysbrydol a diwylliannol y plant eu hybu'n dda drwy amrywiaeth o brofiadau dysgu. Mae'r ymarferwyr yn meithrin ymdeimlad o ryfeddod yn llwyddiannus ac yn darparu amrywiaeth eang o gyfleoedd effeithiol i'r plant ddysgu am bethau byw ac i ofalu amdanynt. Er enghraifft, maent yn eu cefnogi i wylio lindys wrth iddynt newid yn bili-palod cyn eu rhyddhau i'r gwyllt.

Mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn deall arfer y cyfnod sylfaen yn dda. Maent yn egluro pethau'n glir, yn modelu gweithgareddau ac yn cwestiynu'r plant yn effeithiol. Maent yn cyfuno tasgau â phwyslais penodol â chwarae rhydd y plant yn dda.  Mae'r ymarferwyr yn ystyried diddordebau unigol y plant yn briodol wrth gynllunio profiadau dysgu. Er enghraifft, maent yn gofyn i'r plant pa adnoddau yr hoffent chwarae â nhw'r diwrnod canlynol.  Fodd bynnag, nid yw cyfleoedd iddynt ddewis o ystod o adnoddau a dilyn eu syniadau a diddordebau unigol eu hunain wedi cael eu datblygu'n ddigonol.

Mae gweithdrefnau asesu buddiol ar waith yn y lleoliad.  Mae'r ymarferwyr yn nodi'r hyn y gall y plant ei wneud eisoes yn ystod eu hwythnosau cyntaf yn y lleoliad. Maent yn cofnodi sylwadau defnyddiol sy'n llwyddo i ddangos cynnydd y plant dros amser.

**Yr Amgylchedd: Da**

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd diogel a bod pob ymarferwr yn gwbl ymwybodol o weithdrefnau iechyd a diogelwch y lleoliad. Mae gweithdrefnau effeithiol ar waith gan gynnwys asesiadau risg ysgrifenedig a gwiriadau ystafell dyddiol sy'n sicrhau bod peryglon posibl yn cael eu lleihau neu eu dileu yn y lleoliad ac ar deithiau.  Caiff mynediad i'r lleoliad ei reoli'n dda gan fod yr arweinwyr yn sicrhau bod y brif fynedfa ar glo a bod pob ymwelydd yn cael ei gofnodi.

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd sydd wedi'i addurno'n dda sy'n ystyried diddordebau'r plant gyda digonedd o gyfleusterau i ychwanegu at eu llesiant a'u dysgu yn effeithiol. Mae'r babanod yn cael defnyddio llawr meddal, sbyngaidd sy'n addas ar gyfer cropian ac mae gan y plant hŷn ardal ar wahân i reidio beiciau, dringo grisiau a chrwydro ar hyd y bencydd gwair a thwneli.  Mae'r ymarferwyr yn cynllunio yn greadigol i ddatblygu dychymyg y plant ac i archwilio'r byd o'u hamgylch gan ddefnyddio'r ardal goediog a thai bach twt chwarae rôl o ansawdd uchel. Mae gan yr ystafelloedd chwarae fynediad uniongyrchol i'r ardaloedd awyr agored ac maent yn ddiddorol ac yn addas iawn.  Mae'r ymarferwyr yn blaenoriaethu'r awyr agored yn

gyffredinol. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd bob amser i'r plant gael mynediad rhydd ac arwain eu dysgu eu hunain. Dan do, mae'r ymarferwyr yn defnyddio arddangosiadau i ddathlu cyflawniadau'r plant yn effeithiol. Mae hyn yn rhoi i'r plant ymdeimlad o berthyn ac yn eu helpu i deimlo'n falch o'u cyflawniadau. Mae cynllun a gosodiad yr ystafelloedd chwarae yn hybu annibyniaeth y plant yn addas ac yn adlewyrchu anghenion a diddordebau'r plant yn dda. Er enghraifft, mae'r ystafell synhwyraidd ddynodedig yn hybu datblygiad ymennydd cyffredinol y babanod ac mae'r ystafelloedd cyn ysgol yn adlewyrchu egwyddorion y cyfnod sylfaen yn briodol gan sicrhau lle diogel sy'n gyfoethog ac amrywiol lle y gall y plant chwarae, archwilio a dysgu.

Mae'r arweinwyr yn darparu amrywiaeth o adnoddau chwarae a dysgu o ansawdd da, sy'n briodol o ran eu datblygiad. Er enghraifft, mae'r arweinwyr yn hybu chwilfrydedd y plant a'u sgiliau datrys problemau drwy ddefnyddio 'chwarae â darnau rhydd' lle gellir symud deunyddiau naturiol a rhai y gellir eu hailgylchu o gwmpas a'u defnyddio mewn ffyrdd diddiwedd. Mae gan y lleoliad amrywiaeth eang o ddodrefn isel ac adnoddau a ddefnyddir gan yr ymarferwyr yn effeithiol er mwyn ychwanegu at ddysgu'r plant. Er enghraifft, mae potiau plannu o wahanol faint yn galluogi pob plentyn i estyn y tu mewn iddynt er mwyn plannu a thyfu eu llysiau eu hunain.

**Arwain a rheoli: Da**

Mae'r arweinwyr yn gweithio'n effeithiol gyda'r ymarferwyr i ddarparu amgylchedd gofalgar a magwrus i bob plentyn. Mae'r unigolyn cyfrifol yn gweithio'n agos gyda'r personau â chyfrifoldeb. Maent yn rheoli'r ymarferwyr a'r plant yn dda er mwyn sicrhau bod y lleoliad yn rhedeg yn esmwyth, gan ddilyn trefn sefydlog. Mae ymrwymiad cadarn i waith tîm ac mae'r holl staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r arweinwyr yn rhannu gweledigaeth glir y dylai'r lleoliad ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i'r plant yn eu gofal.

Mae'r arweinwyr yn rhannu ystod briodol o bolisïau a gweithdrefnau addas â'r ymarferwyr i sicrhau bod y lleoliad yn rhedeg yn effeithiol. Maent yn dilyn prosesau recriwtio diogel ar gyfer yr holl staff ac mae'r lleoliad yn defnyddio'r nifer gofynnol o ymarferwyr â chymwysterau addas yn gyson. Mae datganiad o ddiben cyfredol sy'n sicrhau bod y rhieni yn gallu gwneud dewis gwybodus ynghylch defnyddio'r gwasanaeth.

Mae gan yr arweinwyr drefniadau effeithiol i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella ac maent yn defnyddio gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau mewn modd buddiol i lywio'r broses hunanwerthuso. Mae pob ymarferwr yn ymrwymedig i wella ansawdd y ddarpariaeth a chanlyniadau'r plant. Mae'r arweinwyr ystafell yn gweithio gyda'u timau yn effeithiol i nodi cryfderau ac agweddau y mae angen eu datblygu yn effeithiol. Er enghraifft, mae canolbwyntio ar ddatblygu'r ddarpariaeth Gymraeg yn ystafell y plant bach wedi cael effaith gadarnhaol ar sgiliau'r plant yn y maes hwn.

Mae'r arweinwyr yn defnyddio systemau arfarnu a goruchwylio'r lleoliad er mwyn adolygu perfformiad yr ymarferwyr yn addas. Maent yn darparu cyfleoedd defnyddiol i'r ymarferwyr drafod ansawdd eu gwaith a myfyrio arno. Fodd bynnag, mae llawer o'r targedau yn rhy eang ac nid ydynt yn rhoi i'r ymarferwyr nac i'r personau â chyfrifoldeb feysydd i'w gwella yn ddigon clir.

Mae'r arweinwyr yn darparu cyfleoedd effeithiol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus ac mae'r ymarferwyr yn manteisio ar y rhain i wella eu perfformiad. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar sgiliau’r ymarferwyr, megis meithrin eu dealltwriaeth o'r ffordd i feithrin sgiliau datrys problemau'r plant yn llwyddiannus. Mae'r unigolyn cyfrifol yn darparu cyfleoedd buddiol i'r ymarferwyr ymgymryd ag astudio pellach ac mae llawer ohonynt wedi ennill cymwysterau ychwanegol yn ystod eu hamser yn y lleoliad.

Mae'r arweinwyr wedi datblygu amrywiaeth o bartneriaethau effeithiol sy'n gwella ansawdd y ddarpariaeth a chanlyniadau'r plant yn dda. Mae'r lleoliad yn defnyddio ei gysylltiadau â'r brifysgol ac asiantaethau allanol mewn modd buddiol. Er enghraifft, mae myfyrwyr drama yn siarad â'r plant i gael eu hysbrydoli cyn iddynt greu drama fer y byddant yn ei pherfformio iddynt yn theatr y brifysgol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn hysbysu'r rhieni am ofal a datblygiad y plant yn effeithiol drwy ddiweddariadau anffurfiol, cylchlythyrau a hysbysfwrdd ddefnyddiol. Mae'r ymarferwyr yn llenwi dyddiaduron ar gyfer rhieni'r plant iau ac yn cynnal cyfarfodydd ar gyfer rhieni'r plant cyn ysgol i rannu cyflawniadau'r plant a thrafod eu cynnydd yn effeithiol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru)  (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg Cyf (o'r Saesneg i'r Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  11/09/2019